Crynodeb Gweithredol

Ddwy ganrif yn ôl, ariannwyd y gwaith o greu miloedd o filltiroedd o gamlesi ac afonydd mordwyadwy gan fusnesau preifat er mwyn gwasanaethu Chwyldro Diwydiannol cyntaf y byd. Yn yr ugeinfed ganrif camodd y Llywodraeth i mewn gan ddod yn gyfrifol am y dyfrffyrdd hyn, a chan oruchwylio'r gwaith o droi'r hen greiriau diwydiannol hyn yn ddyfrffyrdd hamdden prysur a welir heddiw.

Mae'r rhwydwaith dyfrffyrdd wedi dod yn noddfa i bobl a bywyd gwyllt, yn fannau agored gwerthfawr i gymunedau lleol ac yn llwybrau 'gwyrdd' di-draffig i gychwyr, cerddwyr, rhedwyr a beicwyr. Yn 2009, cafwyd dros 340 miliwn o ymweliadau â'r dyfrffyrdd; cynnydd o 80 miliwn o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Cred y Llywodraeth y gall miliynau'n fwy o bobl fwynhau ein camlesi a'n hafonydd, os gallwn gyflawni eu potensial i gynnig buddiannau lluosog, a chael pob rhan o'n cymdeithas i chwarae rhan weithredol yn y gwaith o'u diogelu a'u datblygu yn y dyfodol.

Fodd bynnag, mae perchenogaeth gyhoeddus yn cyfyngu ar allu'r rhwydwaith i addasu ac arloesi. Mae angen model newydd o berchenogaeth i gyflawni potensial llawn y dyfrffyrdd er mwyn iddynt ffynnu yn y dyfodol; un a fydd yn galluogi'r rhwydwaith i ehangu ac atgyfnerthu ei gyllid, a chynyddu rôl cymunedau lleol yn y broses o helpu i benderfynu ar y ffordd y caiff eu camlas neu eu hafon leol ei rhedeg.

Felly mae'r Llywodraeth yn cynnig y dylid gosod y dyfrffyrdd hynny yng Nghymru a Lloegr sydd o dan berchenogaeth y wladwriaeth mewn ymddiriedolaeth i'r genedl drwy sefydlu sefydliad cymdeithas sifil, sef Elusen Dyfrffyrdd Newydd (NWC).

Ar hyn o bryd, mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn gyfrifol am dros 4,000 km o rwydwaith dyfrffyrdd mewndirol Cymru a Lloegr. Y ddau awdurdod mordwyo mwyaf sy'n rheoli'r rhwydwaith hwn ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol yw:

• Dyfrffyrdd Prydain, sef corfforaeth gyhoeddus, sy'n gofalu am 2,500 km o gamlesi, 500km o afonydd mordwyadwy, 15 km o ddociau a miloedd lawer o lociau, pontydd, argloddiau a thraphontydd dŵr; ac

• Asiantaeth yr Amgylchedd, sef corff cyhoeddus anadrannol, sy'n ymwneud yn bennaf â llifogydd, llygredd ac afonydd, sy'n gofalu am fwy na 1,000 km o hydoedd mordwyadwy ar afonydd yn bennaf.

Mae cynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer troi Dyfrffyrdd Prydain yn gymdeithas sifil eisoes yn mynd rhagddynt ac maent yn fwy datblygedig na'r cynlluniau ar gyfer hydoedd mordwyadwy Asiantaeth yr Amgylchedd. Felly mae'r Llywodraeth yn cynnig y dylid

trosglwyddo i NWC ar ddau gam, gyda Dyfrffyrdd Prydain yn symud gyntaf a hydoedd mordwyadwy afonydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn symud ar ôl yr Adolygiad nesaf o Wariant, yn amodol ar fforddiadwyedd a chytundeb Ymddiriedolwyr yr NWC.

Mae'r Llywodraeth o'r farn y bydd symud i gymdeithas sifil yn sicrhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor y dyfrffyrdd. Mae'n bwriadu trosglwyddo holl eiddo Dyfrffyrdd Prydain i'r elusen, fel gwaddol, ac i ymrwymo i gontract cyllido hirdymor. Bydd yr elusen hefyd yn cael cyfleoedd newydd i gynyddu incwm o roddion gwirfoddol, cyfleoedd masnachol newydd, arbedion effeithlonrwydd a thwf mewn gwirfoddoli.

[page 6]

Mae'r cynnig hefyd yn dangos ymrwymiad y Llywodraeth i sicrhau bod defnyddwyr y dyfrffyrdd a'r cymunedau sy'n byw ar eu hyd yn cael cyfle i chwarae mwy o ran yn y ffordd y caiff dyfrffyrdd eu rheoli. Ei nod yw grymuso ac annog mwy o bobl i gynnig eu harbenigedd a'u brwdfrydedd i'r sefydliad.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu model llywodraethu posibl i'r elusen newydd, gyda'r nod o adlewyrchu'r amrywiaeth mawr o ddefnyddwyr dyfrffyrdd, a chydbwyso'r angen am ymagwedd genedlaethol ynghyd â ffocws lleol:

• Byddai **Partneriaethau Lleol** yn cynghori rheolwyr lleol, eu cynorthwyo a rhoi cefnogaeth hanfodol iddynt. Byddent yn helpu i ddatblygu'r strategaeth leol, meithrin partneriaethau a chynghreiriau, a chodi arian at brosiectau lleol. Byddent yn sicrhau bod anghenion pobl leol yn cael eu hadlewyrchu yn y broses gwneud penderfyniadau ac yn annog pobl leol i gymryd mwy o gyfrifoldeb am ffyniant eu dyfrffyrdd yn y dyfodol.

• Byddai'r **Cyngor** yn gyfrifol am roi arweiniad i'r Ymddiriedolwyr ar eu perfformiad cyffredinol wrth gyflawni 'dibenion elusennol' yr NWC. Byddai hefyd yn cael y pŵer i benodi neu ddiswyddo Ymddiriedolwyr. Rhagwelir y byddai'r Cyngor yn cynnwys rhwng 35 a 50 o aelodau, a fyddai'n dod o'r gwahanol gymunedau sy'n defnyddio'r dyfrffyrdd neu'n cael budd ohonynt, gan gynnwys cychwyr, canŵ-wyr, cerddwyr, genweirwyr, beicwyr, grwpiau treftadaeth, amgylcheddol a chymunedol yn ogystal â chadeiryddion Partneriaethau Lleol.

• Byddai **Bwrdd bach o Ymddiriedolwyr,** a benodir gan y Cyngor, yn bennaf gyfrifol am bopeth a wna'r elusen ac am sicrhau bod y sefydliad yn llwyddo i gyflawni ei ddiben.

Mae'r Llywodraeth am wneud y newidiadau hyn drwy'r Bil Cyrff Cyhoeddus sy'n cael ei ystyried gan Senedd y DU ar hyn o bryd. Ar yr amod y caiff y Bil ei basio ac y caiff y Gorchymyn canlyniadol ei gymeradwyo gan y Senedd, disgwylir i'r NWC ymgymryd â'i chyfrifoldebau ym mis Ebrill 2012.

Yn y ddogfen hon rydym yn gofyn am sylwadau ar elfennau allweddol cynigion y Llywodraeth, gan gynnwys:

• Beth yw eich barn chi am ddibenion elusennol yr elusen newydd?

• A gytunwch â'r model llywodraethu arfaethedig i'r elusen newydd - a pha welliannau y gallech eu hawgrymu?

• Sut y gellid helpu pobl i gymryd rhan ac ymgymryd â mwy o gyfrifoldeb am eu dyfrffyrdd lleol?

Mae'r Llywodraeth yn disgwyl cyhoeddi ei hymateb i'r ymgynghoriad hwn yn ystod hydref 2011.

[page 7]

Cwmpas

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar y ffordd y caiff y dyfrffyrdd mewndirol yng Nghymru a Lloegr sy'n cael eu rheoli ar hyn o bryd ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig eu rhedeg yn y dyfodol. Mae'n amlinellu'r rhesymeg dros drosglwyddo'r dyfrffyrdd hyn o ddwylo'r sector cyhoeddus ac i ddwylo sefydliad cymdeithas sifil newydd, a'r egwyddorion a fydd yn llywio'r Llywodraeth wrth benderfynu ar y ffordd ymlaen.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anelu at y canlynol:

• pobl sy'n defnyddio'r dyfrffyrdd fel rhan o'u bywyd bob dydd neu sydd â diddordeb ynddynt;

• pobl nad ydynt yn defnyddio'r dyfrffyrdd ond sy'n dymuno cael budd ohonynt neu a allai gael budd ohonynt;

• pobl sy'n ymwneud â'r dyfrffyrdd (er enghraifft cymdeithasau camlesi, cychwyr, genweirwyr, grwpiau gwirfoddol, staff Dyfrffyrdd Prydain);

• grwpiau lleiafrifol sydd â diddordeb yn y dyfrffyrdd (er enghraifft pobl ddu neu leiafrifoedd ethnig, pobl anabl);

• defnyddwyr busnes y dyfrffyrdd, gan gynnwys hurwyr cychod a gweithredwyr masnachol, adeiladwyr cychod, busnesau glannau dŵr a busnesau sydd â budd anuniongyrchol (er enghraifft, tafarndai, caffis, gwestai ac ati);

• llywodraeth genedlaethol a lleol a rhanddeiliaid cenedlaethol a lleol allweddol (er enghraifft Awdurdodau Lleol);

• grwpiau buddiant cenedlaethol a lleol (er enghraifft ymddiriedolaethau bywyd gwyllt, grwpiau seiclo, cerddwyr, Cynghorau Plwyf, ac ati);

• grwpiau buddiant cenedlaethol megis sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol a hamdden a ffederasiynau diwydiannau; a

• chynghorwyr statudol y Llywodraeth.

[page 65]

Cwestiynau'r ymgynghoriad a sut i ymateb

Sut i ymateb

6.1 Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad drwy e-bost – anfonwch eich ymatebion i NWCresponses@defra.gsi.gov.uk.

Neu drwy'r post – anfonwch eich atebion a'ch sylwadau i:

NWC Consultation Responses
Inland Waterways Team, Defra
Area 2D
Ergon House
Horseferry Road
SW1P 4AL

6.2 Byddwn yn croesawu eich sylwadau ar unrhyw agwedd ar ein cynigion, ond byddai'n fuddiol pe gallech ganolbwyntio ar y cwestiynau a ofynnir gennym. Ceir rhestr lawn isod. Nid oes angen i chi ateb pob un os nad ydych am wneud hynny.

Y corff sy'n gyfrifol am yr Ymgynghoriad

6.3 Defra

Hyd yr Ymgynghoriad

6.4 30 Mawrth 2011 hyd 30 Mehefin 2011.

Ar ôl yr Ymgynghoriad

6.5 Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r atebion yn www.defra.gov.uk. Bwriadwn wneud hyn ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, ynghyd â dadansoddi'r ymatebion. Mae'n ofynnol i ni ryddhau gwybodaeth er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Ni fyddwn yn caniatáu unrhyw dor-gyfrinachedd diangen ac ni fyddwn ychwaith yn gweithredu yn groes i'n rhwymedigaethau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Defra fydd y Rheolwr Data. Cesglir data personol at ddiben dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad er mwyn llywio ystyriaeth o bolisi dyfrffyrdd yn Lloegr yn y dyfodol. Noder na fyddwn yn trin unrhyw

ymwadiad cyfrinachedd a gynhyrchir gan eich system TG mewn ymatebion dros yr e-bost fel cais o'r fath.

[page 66]

6.6 Bwriadwn rannu ymatebion i'r ymgynghoriad â'r Ymddiriedolwyr elusennol arfaethedig, er mwyn eu helpu i sefydlu'r elusen newydd a datblygu ei chyfansoddiad. Os byddai'n well gennych beidio â rhannu'ch ymateb â'r Ymddiriedolwyr Dros Dro, rhowch wybod i ni.

6.7 Bwriadwn gyhoeddi ymateb y Llywodraeth yn ystod hydref 2011. Byddwn yn hysbysu pob un a ymatebodd a'r rhai yr anfonwyd yr ymgynghoriad atynt pan fydd y wybodaeth hon ar gael, ac eithrio'r rhai sydd wedi gofyn i ni beidio â gwneud hynny.

Cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar Ymgynghori

6.8 Mae'r ymgynghoriad hwn yn cydymffurfio â'r Cod.

Cwynion

6.9 Os bydd gennych unrhyw sylwadau neu gwynion ynglŷn â'r broses ymgynghori (yn hytrach na sylwadau ar y materion hyn y mae a wnelo'r ymgynghoriad â hwy) anfonwch hwy at:

Consultation Co-ordinator,
Area 7C Nobel House,
17 Smith Square,
London
SW1P 3JR
neu e-bostiwch consultation.coordinator@defra.gsi.gov.uk

Y camau nesaf a ffyrdd eraill o gymryd rhan

6.10 Caiff digwyddiadau i randdeiliaid eu trefnu yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad. Caiff manylion pellach eu cyhoeddi ar y wefan pan fyddant ar gael.

Ymgynghoriad yn cau: 30 Mehefin 2011

Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad: Hydref 2011

[page 67]

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Pennod 2: 'Ymddiriedolaeth' genedlaethol ar gyfer y dyfrffyrdd

Cwestiwn 1: A gytunwch y dylai'r elusen, dros amser, weithio tuag at gynnwys hydoedd mordwyadwy eraill, gan gynnwys hydoedd mordwyadwy Asiantaeth yr Amgylchedd, yn yr Adolygiad nesaf o Wariant?

Cwestiwn 2: A yw'r gofynion arfaethedig yn y Datganiad am Ymddiriedolaeth yn briodol yn eich barn chi? A oes digon/a oes gofynion eraill y dylid eu hystyried?

Cwestiwn 3: A gytunwch fod y dibenion elusennol a awgrymir ar gyfer yr NWC yn briodol yn fras? A allwch feddwl am ofynion angenrheidiol eraill?

Cwestiwn 4: A gytunwch â'r 'datganiad cenhadaeth' arfaethedig? Sut y gellid ei wella?

Cwestiwn 5: A gytunwch â'r datganiad arfaethedig am 'gred'? Sut y gellid ei wella?

Cwestiwn 6: A gytunwch â'r datganiad arfaethedig am 'weledigaeth'? Sut y gellid ei wella?

Cwestiwn 7: A gytunwch y dylai'r Elusen Dyfrffyrdd Newydd gael yr un pwerau ag sydd gan Dyfrffyrdd Prydain ac a ddylai ymgymryd â dyletswyddau cyfreithiol cyffelyb i gynnal y dyfrffyrdd?

Pennod 3: Cael pobl i fod yn rhan o'r elusen newydd

Cwestiwn 8: A gytunwch â'r model llywodraethu arfaethedig i'r elusen newydd? Pa welliannau y gellid eu gwneud?

Cwestiwn 9: A ddylai arian a godir yn lleol gan y Bartneriaeth Leol gael ei wario ar flaenoriaethau lleol? Pam?

Cwestiwn 10: Pwy y dylid ei annog i fod yn aelod o Bartneriaethau Lleol? Pwy ddylai'r panel enwebiadau ei gynnwys; pwy yw'r partïon hollbwysig?

Cwestiwn 11: Ai rhwng 8 a 12 yw'r maint cywir o ran Partneriaeth Leol?

Cwestiwn 12: Pa bynciau neu weithgareddau arbennig y bydd angen i is-bwyllgor penodol partneriaeth leol eu hystyried yn eich barn chi?

Cwestiwn 13: Sut orau y gall yr Elusen Dyfrffyrdd Newydd daro cydbwysedd rhwng anghenion lleol ac anghenion y rhwydwaith dyfrffyrdd yn ei gyfanrwydd?

Cwestiwn 14: Sut y gallai'r elusen annog gweithio effeithiol rhwng gwahanol gymunedau a phartneriaethau sy'n rhannu'r un ddyfrffordd?

Cwestiwn 15: Sut y gellid helpu pobl i gymryd rhan ac ymgymryd â mwy o gyfrifoldeb am eu dyfrffyrdd lleol? Pa rwystrau sydd, a sut y gellid goresgyn unrhyw rwystrau?

Cwestiwn 16: Sut y gellid annog mwy o bobl i wirfoddoli ar gyfer y dyfrffyrdd? Pa rwystrau sydd, a sut y gellid goresgyn unrhyw rwystrau?

Cwestiwn 17: Sut beth fyddai rhaglen wirfoddoli lwyddiannus? Beth fyddai'n ei gyflawni?

Cwestiwn 18: A gytunwch y dylai'r elusen newydd ganolbwyntio ar sicrhau cynrychiolaeth deg ar y dechrau, a symud tuag at elfen fwy o aelodaeth uniongyrchol dros amser?

Cwestiwn 19: A gytunwch ag aelodaeth arfaethedig y Cyngor? Pa fuddiannau a ddylai gael eu cynrychioli?

Cwestiwn 20: A ddylai cyfran o'r Cyngor gael ei hethol yn uniongyrchol? Os felly, pwy ddylai gael hawl i bleidleisio?

Cwestiwn 21: A ddylai cadeirydd annibynnol y Pwyllgor Penodiadau gael ei ddewis gan aelodau'r Pwyllgor neu'r Cyngor? Pa sgiliau fyddai eu hangen arnynt?

Cwestiwn 22: A oes pynciau eraill y byddai'n fuddiol i bwyllgorau craffu'r Cyngor eu hystyried, yn eich barn chi?

Cwestiwn 23: A oes unrhyw rai o weithgareddau eraill Dyfrffyrdd Prydain y dylid eu trosglwyddo i'r CIC?

Pennod 4: Creu dyfodol cynaliadwy i'n dyfrffyrdd

Cwestiwn 24: Polisi'r Llywodraeth yw cefnogi cludo nwyddau ar ddyfrffyrdd mewndirol, lle mae'n gynaliadwy yn economaidd. A gytunwch nad oes modd i'r sefyllfa sydd ohoni barhau? Pa un o'r pum opsiwn sy'n well gennych? Pa opsiynau eraill y dylem eu hystyried?

Cwestiwn 25: Beth fyddai mesurau priodol o effeithiolrwydd defnydd yr NWC o arian cyhoeddus (drwy Gontract Cyllido'r Llywodraeth)?

Cwestiwn 26: A oes meysydd eraill lle y gallai'r NWC ystyried:
- Cynyddu ei hincwm masnachol
- Ei hincwm gwirfoddol
- Ei hincwm gan drydydd parti?

Cwestiwn 27: A oes meysydd eraill, yn eich barn chi, lle y gallai'r NWC arbed mwy o arian/wneud mwy o arbedion effeithlonrwydd?

Cwestiwn 28: Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau sydd gennych ar y dadansoddiad yn yr Asesiad o Effaith a thystiolaeth berthnasol y gallem ei defnyddio wrth lunio'r asesiad terfynol.

[page 69]

Pennod 5: Newid i gymdeithas sifil

Cwestiwn 29: Elusen Dyfrffyrdd Newydd (NWC) yw'r teitl dros dro i'r elusen newydd. Pa un o'r awgrymiadau canlynol am enw'r elusen newydd sy'n well gennych, a pham?

a) Yr Ymddiriedolaeth Ddyfrffyrdd Genedlaethol
b) Ymddiriedolaeth Ddyfrffyrdd Cymru a Lloegr
c)) Ymddiriedolaeth y Dyfrffyrdd
ch) Ymddiriedolaeth Genedlaethol Camlesi ac Afonydd
d)) Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd
dd) Yr Elusen Dyfrffyrdd Genedlaethol
e) [eich awgrym chi]?